OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1581

# Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol a Darpariaeth Arbed) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

## RHAN 3

## Diwygio is-ddeddfwriaeth Cymru

**Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2013**

**12.**—(1) Mae Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2013(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 5—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "o'r darpariaethau UE" rhodder "o ddarpariaethau cyfraith yr UE a ddargedwir";

(b) ym mharagraff (2), yn lle "darpariaethau UE" rhodder "darpariaethau cyfraith yr UE a ddargedwir".

(3) Yn rheoliad 8(2) (cymhwyso adrannau amrywiol o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990), yn nhestun adran 9 a addaswyd, yn lle "the EU requirements", ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder "the retained EU law requirements".

(**1**) O.S. 2013/2493 (Cy. 242), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/806 (Cy. 162).